**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Chwefror 2020

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Ionawr yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth lafar ar 13 Ionawr ar ymchwiliad 'Y newid yng nghyfansoddiad Cymru' a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael). Roeddwn innau hefyd o'r farn bod y sesiwn hon yn hynod werthfawr.

Gofynnoch am eglurhad ynglŷn ag amryw o faterion ac rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth isod.

**Cytundebau rhynglywodraethol**

Cydnabuoch fod y Trefnydd wedi gwneud ymrwymiad y byddwn yn parhau i roi diweddariad ar y cynnydd gyda'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w wneud o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn rhagweld y bydd hwn yn dileu'r gofyniad am gael cydsyniad Gweinidog y Goron ar gyfer diddymu pwerau cydredol a grëwyd mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit. Byddwn yn darparu'r diweddariad hwnnw maes o law.

Croesawoch fy nghynnig i ystyried rôl uwch i'r Senedd o ran craffu ar gytundebau rhynglywodraethol ac unrhyw syniadau eraill sydd gennyf ar barhau i'w defnyddio ac ar hyd cytundebau o'r fath. Byddaf hefyd yn darparu ymateb mewn perthynas â'r materion hynny maes o law.

**Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020**

Gofynnoch imi rannu fy marn i ynglŷn â faint yn union o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, a'r amserlenni ar eu cyfer, a pha un a ydy Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud ei rheoliadau ei hun neu gydsynio ag offerynnau statudol a wneir gan Lywodraeth y DU. Mae arnaf ofn na ellir darparu manylion ynglŷn â hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n hapus i ailadrodd yr ymrwymiadau yr wyf wedi'u rhoi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o rybudd ag sy'n bosibl ymlaen

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

llaw am y rhaglen offerynnau statudol sy'n deillio o'r Ddeddf ac y byddwn yn ceisio gwneud ein rheoliadau ein hunain lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

**Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol**

Gofynnoch am eglurhad o'r amgylchiadau lle na allai fod yn ymarferol o bosibl i gyflwyno cynigion cydsyniad offeryn statudol. Yn fy marn i, byddai amgylchiadau tebyg i'r rheini a wynebwyd gennym o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2018 yn gymwys.

Roeddech chi hefyd yn chwilio am gadarnhad bod fy ymrwymiad i gyflwyno cynigion cydsyniad offeryn statudol cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol bosibl yn gymwys mewn perthynas â Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau yn deillio o Ddeddfau gan Senedd y DU sy'n gysylltiedig â Brexit. Gallaf gadarnhau bod fy ymrwymiad yn mynd ymhellach na hynny mewn gwirionedd. Mae fy ymrwymiad y gymwys i'r holl reoliadau y mae Rheol Sefydlog 30A yn gymwys iddynt.

**Adran 38 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020**

Yn olaf, gofynnoch am fy argraffiadau o'r hyn sydd yn awr yn adran 38 ('Parliamentary sovereignty') o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Fel yr ydych yn gwybod, yn ystod y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Ionawr, cysylltodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit Lywodraeth Cymru â sylwadau a wnaed gan Carwyn Jones AC yn ystod y ddadl honno. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit fod yr adran hon yn atgyfnerthu rhyw fath o sofraniaeth Senedd y DU na ddylem ni yn y lle hwn fod yn rhy barod i'w chefnogi, oherwydd mae'n camddeall yn sylfaenol y newid sydd wedi bod yng nghyfansoddiad Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Yn gywir

Mark.

**MARK DRAKEFORD**